# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Tachwedd 2019

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Diwygio'r cwricwlwm - sesiwn ar Ddyfodol Llwyddiannus i Bawb: Ymchwiliadau i ddiwygio'r cwricwlwm (Adroddiad Terfynol)

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 12)

Dr Nigel Newton, Cydymaith Ymchwil, WISERD - Prifysgol Caerdydd

Mae'r adroddiad i'w gyhoeddi ddydd Gwener 8 Tachwedd a disgwylir iddo fod ar gael yma: https://wiserd.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/dyfodol-llwyddiannus-i-bawb-ymchwiliadau-i-ddiwygior-cwricwlwm

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(10.30)

**3.1 Llythyr gan Amddiffyn Addysg Gartref Cymru ynghylch y canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref**

(Tudalennau 13 - 18)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-31-19 - Papur i'w nodi 1

~

**3.2 E-bost gan Ymddiriedolwr a Chyswllt Cymru ar gyfer Education Otherwise ynghylch y canllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref**

(Tudalennau 19 - 23)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-31-19 - Papur i'w nodi 2

**3.3 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ynghylch addysg a gofal plentyndod cynnar**

(Tudalennau 24 - 42)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-31-19 Papur i'w nodi 3

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.30)

## Egwyl

(10.30 - 10.40)

## 5 Craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 – trafod yr adroddiad drafft

(10.40 – 11.40) (Tudalennau 43 – 90)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-31-19 – Papur preifat – adroddiad drafft

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Protecting Home Education Wales**
protectinghewales@gmail.com
https://protectinghomeeducationwales.wordpress.com/

Lynne Neagle
Assembly Member
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

20 October 2019

**QC advice on draft statutory guidance for local authorities on home education**

Dear Lynne Neagle

We are writing to ask your support in respect of the draft statutory guidance for local authorities on home education (the Guidance), issued by the Welsh Government, the consultation of which ends on 21 October 2019.

We have obtained legal advice on the Guidance from David Wolfe QC, of Matrix Chambers, and enclose copy of the same for your attention. You will note from the advice that if the Guidance was issued in its current form it would be **unlawful** and/or lead to **illegality** by local authorities acting in the light of it.

The main legal issues with the Guidance which would render it **unlawful** are:

1. it suggests that meetings with families and/or the child are mandatory (either for the local authority and/or the family);
2. it suggests that seeing the child is mandatory (either for the local authority and/or the parents/child to agree to that);
3. it states that only in exceptional circumstances the local authority can conclude without seeing the child that it is receiving a suitable education;
4. it implies that local authorities can/ should insist on seeing a child without its parents;
5. it implies that there is some obligation on parents to give a reason for de-registering their child with a view to home education;
6. it implies that the local authority can insist on discussions with parents and/or children as to their decision to home educate;
7. it suggests that the local authority has any role in questioning the parental choice to home educate in circumstances where that education is suitable.
8. it suggests some form of hierarchy or presumption in favour of education at schools and against education otherwise than at school.

On that basis we kindly ask that you demand the Welsh Government to withdraw the Guidance.

Yours sincerely

Protecting Home Education Wales

matrix
chambers

Griffin Building
Gray's Inn
London WC1R 5LN
DX 400 Chancery Lane

T +44 (0)20 7404 3447
F +44 (0)20 7404 3448
matrix@matrixlaw.co.uk
www.matrixlaw.co.uk

RE: CONSULTATION ON NEW HOME EDUCATION GUIDANCE IN WALES

---

**ADVICE FOR 'PROTECTING HOME EDUCATION WALES'**

---

1. I am instructed to provide advice to Protecting Home Education Wales on some legal matters arising from the Draft Statutory Guidance for Local Authorities on home education on which the Welsh Government is currently consulting.

2. I understand that this advice will be submitted as part of one or more responses to that consultation.

3. Additional legal points may arise if and when the Welsh Government makes information sharing regulations of the kind contemplated by the draft guidance. The legality of those regulations cannot be judged at this stage.

4. The points I make are in the order of the paragraphs of the Draft Guidance itself.

5. Paragraph 1.4 of the Draft Guidance explains that principles of the UNCRC guide how the rights of the child are protected. It says that "these principles are", and then lists Articles 2, 3, 6 and 12 UNCRC. However, and importantly, that list fails to include or recognise the obligations arising under Article 14 (rights and duties of parents) or Article 16 (prohibition on interference with privacy and home).

6. Paragraph 2.19 correctly notes the established legal position that local authorities may make enquiries of parents as part of discharging their legal obligations. However, paragraph 2.23 says that "Where a child has been de-registered, the local authority should meet with the family as soon as possible to determine the reasons for home education [my underlining]." That sentence goes too far in suggesting that such a meeting is mandatory (either for the local authority and/or the family), and in implying that there is some obligation on parents to give a reason for de-registering their child with a view to home education. In particular, the power to ask, does not require local authorities to ask, let alone require parents to answer.

7. While local authorities can request meetings and explanations, they cannot lawfully demand them. As drafted, the sentence gets the law wrong.

8. Similarly, in paragraph 2.31, the Draft Guidance says that "Where they can identify early signs of an intention to de-register, local authorities should contact parents to discuss their reasons." In implying an obligation on parents to respond to such requests, the guidance goes too far and gets the law wrong.

9. Paragraph 4.21 says that "In order for a local authority to satisfy itself of the suitability of education provided by the parents, the local authority **should** see and speak with the child." The word "should" is in bold in the text, and has a footnote which explains that a local authority would need a good reason not to comply with the guidance (and that refusal to comply by a family does not provide a good reason). That goes too far in suggesting that children/parents are under some sort of obligation to meet with the local authority – they are not.

matrix@matrixlaw.co.uk www.matrixlaw.co.uk
Griffin Building Gray's Inn London WC1R 5LN DX [illegible] 20 7404 3447 F +44 (0)20 7404 3448

10. The text also risks being read by local authorities as suggesting that they can (or indeed should) insist on seeing a child without its parents. There is no lawful basis for a local authority to behave that way simply because a child is being home educated. That must be made clear in the Guidance which currently gets the law wrong.

11. Paragraph 4.22 touches on that issue again in saying that "There may be occasions it is not in the best interests of the child for the local authority to meet with them, or in exceptional circumstances, the local authority can conclude without seeing the child they are receiving a suitable education." Two points arise: first of all the question of whether the child sees the local authority in relation to just the question of home education is entirely a matter for the child's parents and (for an older child) the child. This is not a question of "best interests", and it is entirely inappropriate for the Guidance to suggest that such a threshold or test applies.

12. Secondly, sections 436A and 437 Education Act 1996 require the local authority to reach a view on whether a child is not receiving suitable education. Unless there is positive evidence that the education is not suitable, then the local authority could not reach a rational and therefore lawful conclusion to that effect. There is certainly no proper basis to create a presumption that the education is not suitable unless the local authority has seen the child in question, let alone provide that the local authority should only "exceptionally" depart from such a conclusion. While the Welsh Government can provide guidance on how a local authority approaches its statutory obligations, it cannot distort or subvert those obligations in the way which this Draft Guidance would appear to do here.

13. Paragraph 4.24 refers to information provided by a child and to what use may be made of it. That too implies some form of entitlement on the part of local authorities to insist on seeing a child, or on the part of parents/children to agree to that. There are no such legal entitlements or obligations and the guidance gets the law wrong in suggesting the contrary.

14. The paragraph continues "If it is clear that a child does not wish to be educated at home although the education provision is satisfactory, the local authority should discuss the reasons for this with the parents and encourage them to consider whether home education is in the bests interests of the child when clearly it is not what the child wants." That is unlawful in suggesting some form of hierarchy or presumption in favour of education at schools and against home education, when the law (and Education Act 1996 section 7 in particular) is entirely agnostic as between the two: they are equal in the eyes of the law with the only issue for each being whether the education being provided is suitable.

15. That same sentence is also unlawful in implying that the local authority can insist on discussions with parents and/or children (or that the latter have to engage in such discussions); also in suggesting that the local authority has any role in questioning the parental choice to home educate in circumstances where that education is agreed suitable.

16. Those are clear interferences with, for example, Article 8 ECHR (right to respect for private and family life) which means that Article 14 ECHR (prohibition of discrimination) is engaged. That leads to the conclusion that there would be unlawful discrimination (contrary to Article 14 read in conjunction with Article 8) for a local authority to be taking the action in contemplation in that sentence of the guidance when it would not be doing the same for

matrix
chambers

other children – there is (I assume) no equivalent guidance suggesting that local authorities should ask children at school whether they would like to be educated in a different way and then challenging parents on that basis.

17. To ask about those things - and certainly to insist on answers from, and then to act on those answers - from parents and pupils involved would be incompatible with Convention rights under the Human Rights Act 1998, and so unlawful.

18. Overall, if the matters set out above are adopted in the final guidance following consultation, then that final guidance will mis-state or misunderstand the law and so be unlawful (and/or leads to illegality by local authorities acting in the light of it).

David Wolfe QC

MATRIX

14 October 2019

**CYPE(5)-31-19 – Papur i'w nodi 2**

By email to: SeneddCYPE@assembly.wales

Dear committee members,

Ref: Draft guidance for elective home education

I am writing to ask that the committee consider the above referenced issue in full committee, on the following basis:

On 28th July 2019, the Minister for Education Kirsty Williams AM, published draft guidance and a consultation entitled: '***Home education: statutory guidance for local authorities and handbook for home educators'***. Clearly, if guidance is to be statutory it must accurately reflect the legislative basis upon which it is founded, yet this guidance fails in several ways.

Any consultation is required to follow the Gunning principles, which create duty to consult with home educating families and organisations, arising from the department's express promise made to do so, quite separately from any legal obligation to do so. Where such consultation is carried out it must be done fairly and following the 'Gunning principles' *(Initially set out in R v Brent London Borough Council, ex parte Gunning [1985] 84 LGR 168):*

- ***Consultation must take place when the proposal is at a formative stage. Public authorities must have an open mind during consultation and must not have already made the decision, but may have some ideas about the proposal.***
- ***Sufficient reasons must be put forward for the proposal so as to allow for intelligent consideration and response. Consultees must have enough information to be able to make an informed input to the process.***
- ***Adequate time must be given for consideration and response. The timing and environment of the consultation must be appropriate, sufficient time must be given for people to develop an informed opinion and then provide feedback, and sufficient time must be given for the results to be analysed.***
- ***The product of the consultation must be conscientiously taken into account.***

Notwithstanding, I have been advised from numerous sources that several sections of the proposed guidance were released to local authority staff in advance of

publication to other stakeholders. Furthermore, on 11th July 2019 Ms Williams wrote to Lynne Neagle AM to state that she had:

> '***previously stated (her) view that (she did) not believe it would be possible to make an informed judgement about whether a child is in receipt of suitable education without seeing the child. The draft statutory guidance reflects this view.***'

By making this statement, Ms Williams confirmed that she had made a substantive decision about how home educating families can expect to be treated by their local authorities, at a formative stage and prior to proper consultation. This is procedurally unfair and consequently unlawful.

Ms Williams furthermore confirmed that: '***In developing the guidance (her) officials have engaged with a range of stakeholders to ensure it is as comprehensive and effective for <u>local authorities</u> as it can be prior to the consultation***' and '***The repercussions of not getting this right for local authorities and home educating families are too serious, and so <u>we have been comprehensive in our engagement with local authorities and other stakeholders</u>***'.

Home educating families and organisations, have a legitimate expectation that there would have been full consultation at a formative stage and before a decision, such as that contained in Ms Williams letter, was taken. This was not the case and 'comprehensive' engagement was had with local authorities prior to publication of the draft.

Ms Williams went on to state that:

> '***Consultation on the draft regulations regarding the database and the exchange of information between local health boards and independent schools to local authorities will take place separately. This is due to an <u>extensive scoping exercise officials are undertaking with local authority, independent school and local health board representatives</u>***'.
>
> '***Rather than delay the consultation on the guidance to coincide with the regulations, which as I outlined above won't be ready till November, I consider it expedient to consult on the guidance later this month, as it will have a wider audience than the regulations, <u>which are a technical matter and won't have as a direct impact on home educating families as the new guidance'.</u>***

This statement makes clear that home educating families are yet again expected to have no part in consultation at a formative stage, despite their right to expect such

consultation. That their input is dismissed on the basis of the issue being 'technical' is insulting of those families.

The primary point of data sharing, based on the indications in Ms Williams' letter, is that it would ride rough shod over home educating families' rights to have their data protected in accordance with the Data Protection Act 2018 and the GDPR. Data sharing without consent is a significant complaint made by home educating families to home education organisations and a matter which is considered by those families to be crucial to avoid, in order to maintaining their privacy. Again, this lack of consultation at a formative stage is procedurally unfair and therefore unlawful.

This issue was with Ms Williams, but dismissed out of hand by her and the consultation proceeded with. Please see Ms Williams' letter to Ms Neagle referred to above, attached.

Following publication of the draft guidance it was manifestly clear that several aspects of it were not only unduly draconian, but that they would breach the law if introduced. Consequently, formal legal advice was obtained by a charitable organisation 'Protecting Home Education Wales', from David Wolfe QC a well respected and eminent expert in education and public law. This advice supports the view held by home educating families and organisations, that the guidance as drafted would breach the law. A copy of that advice is attached for your convenience.

The primary areas of concern in respect of the guidance are that:

1. it suggests that meetings with families and/or the child are mandatory (either for the local authority and/or the family);

2. it suggests that seeing the child is mandatory (either for the local authority and/or the parents/child to agree to that);

3. it states that only in exceptional circumstances the local authority can conclude without seeing the child that it is receiving a suitable education;

4. it implies that local authorities can/ should insist on seeing a child without its parents;

5. it implies that there is some obligation on parents to give a reason for de-registering their child with a view to home education;

6. it implies that the local authority can insist on discussions with parents and/or children as to their decision to home educate;

7. it suggests that the local authority has any role in questioning the parental choice to home educate in circumstances where that education is suitable.

8. it suggests some form of hierarchy or presumption in favour of education at schools and against education otherwise than at school.

9. It provides for mandatory referral to the local authority, of any home educated child, by NHS staff.

As part of the consultation process a company was contracted to provide three consultation meetings which stakeholders could attend to provide their views. Numerous attendees have reported back from those meetings that they were specifically told that the issues relating to legal requirements may not be discussed. When questioned, the organisers advised attendees that the Minister had instructed than no part of the guidance relating to legal requirements would be amended following consultation and that no time would be given to discussion of same. This is not only a flagrant breach of the requirements of the Gunning principles, but also indicates a rigid refusal on the part of the Minister to consider the guidance in the light of expert legal advice.

There is very strong feeling amongst home educating families that this consultation has been conducted at least in part, as a sham. Those families have been moved to petition to have the guidance reviewed in the light of senior counsel's advice, which petition has gained in excess of 5,400 signatures.

In addition, it has come to my attention that, allegedly, local authorities are contacting home educating families and purporting to apply the current draft guidance, which is not only purely a proposal, not extant and David Wolfe QC confirmed to 'Protecting Home Education Wales' to be unlawful. Furthermore, he has confirmed that such guidance in draft form cannot be applied.

I do not believe that the committee, nor indeed the Welsh Assembly should stand idle whilst:

- there is a high risk that an unlawful draft guidance could be signed off by the Welsh Government;

- the fairness of the consultation process is in question; and

- the (alleged) unlawful activities are undertaken by Local Authorities, under the umbrella of the Welsh Government.

A full and thorough investigation should be carried out.

I am advised by Mark Isherwood AM that he raised this issue in the chamber and was instructed that the consultation had ended (which it had not as it was extended until 25 October) and that he should address his concerns to the Minister. Mr Isherwood has a significant understanding of this issue, having supported families who have been subject to inappropriate conduct by local authority staff, purely on the basis of their child being home educated. Mr Isherwood advised that I write directly to you to ask that you consider this serious and worrying issue in committee. I ask that you do so.

Both ‘Protecting Home Education Wales’’ representative and I would very much appreciate an opportunity to give evidence to the committee in respect of this issue and ask that an opportunity be provided for us to do so.

Yours Faithfully



Wendy Charles-Warner
Trustee and Welsh Liaison for Education Otherwise

**CYPE(5)-31-19 - Papur i'w nodi 3**

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-(P)/JM/5322/19

Lynne Neagle AC
Cadeiryddy Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

6 Tachwedd 2019

Annwyl Lynne,

Yn dilyn bod yn bresennol yn sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a fu'n rhoi sylw i Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddatganiad ar weledigaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Mae'n bosibl bod aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi gweld y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 24 Hydref i gyd-fynd â'r cyhoeddiad cyhoeddus am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar. Gallwch weld hwnnw yn atodiad 1.

Ein nod ar gyfer Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar yw creu un dull o safon o weithredu Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru, sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn. Bydd ein dull gweithredu yn cydnabod gwerth addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, ac yn dwyn ynghyd y gorau o'r ddau faes mewn un rhaglen, a bydd rhieni'n gallu cael hyd i wasanaethau yn y Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Rydym yn datblygu ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar sail yr egwyddorion sylfaenol canlynol:

- Dylai pob plentyn gael profiad dysgu a gofal o ansawdd uchel sy'n eu hysgogi ym mhob lleoliad addysg a gofal y maent yn eu mynychu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ansawdd ryngwladol Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar;
- Dylai'r ddarpariaeth o gymorth fod yn hyblyg ac yn un sy'n ymateb i amgylchiadau unigol, gan roi sylw i leoliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni deilliannau o safon Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar;
- Bwriedir cael gwared ar y rhaniadau artiffisial rhwng addysg a gofal, ac yn lle hynny bydd y sylw yn cael ei roi i sicrhau bod pob lleoliad sy'n darparu Addysg a Gofal

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Plant yn y Blynyddoedd Cynnar o werth cyfartal mewn perthynas â llesiant a datblygiad y plentyn;
- Bydd gwella'r hyblygrwydd o ran y ffordd y mae Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddarparu yn sicrhau bod gan rieni fwy o gymorth a dewis er mwyn eu cefnogi i ddilyn llwybrau i gael cyflogaeth gynaliadwy a'u symud allan o dlodi;
- Dylai fod yn haws i rieni a theuluoedd lywio'u ffordd drwy'r amrywiaeth eang o ddarpariaeth gymhleth o gymorth sydd ar gael iddynt (yn y DU ac yng Nghymru), fel bod ganddynt y dewis, ac y gallant gael hyd i'r hyn sydd ar gael iddynt;
- Rhaid inni gadw a chryfhau'r hyn y gwyddom sy'n gweithio'n dda, yn enwedig addysgeg y Cyfnod Sylfaen sy'n uchel ei pharch, ac ystyried sut y gallwn ddatblygu'r cryfderau hyn sydd eisoes yn bodoli;
- Dylid cael continwwm o ddysgu a darpariaeth o 0-16 oed, ac Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar sy'n cydblethu â'r cwricwlwm newydd a rhoi mwy o sylw i'r pontio i sicrhau cysondeb a chynnydd ar hyd taith y dysgwr;
- Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar gael eu gwerthfawrogi'n gyfartal, gan gynnwys pecyn o ddysgu a chymorth i adlewyrchu hynny;
- Dylem edrych ar bosibiliadau defnyddio un model cyllid ar gyfer holl ddarparwyr Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar sy'n adlewyrchu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei chynnwys yn nhestun yr araith a roddodd y Prif Weinidog yn y digwyddiad lansio, ac mae honno i'w gweld yn atodiad 2.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn Gywir



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

0

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Lansio dull gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar** |
| **DYDDIAD** | **24 Hydref** |
| **GAN** | **Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru** |

Heddiw, bydd Cymru yn cychwyn ar daith gyffrous er mwyn creu un dull gweithredu o ansawdd uchel ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar, sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Byddwn yn diwygio darpariaeth gofal y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae profiadau plentyndod yn allweddol wrth lywio ein dyfodol, ac maent yn hollbwysig er mwyn mynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn. Yn anffodus, erbyn iddynt gyrraedd tair oed, rydym yn gwybod bod plant sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig yn gallu bod cymaint â blwyddyn y tu ôl i'w cyfoedion.

Mae'r bwlch cyrhaeddiad yn lledu erbyn i blant gyrraedd oedran ysgol. Mae'r bylchau hyn yn cynyddu'n gyson dros amser a bydd effaith hyn yn parhau gydol oes.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn ac yn mynd ati i gau'r bwlch. Mae sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael yr un gefnogaeth o ran addysg a gofal plentyndod cynnar, a honno'n gefnogaeth o safon, yn allweddol i hyn.

Yng Nghymru, mae gennym eisoes ddarpariaeth gofal plant ardderchog ar draws y blynyddoedd cynnar, a chynnig addysg gynnar sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n uchel ei pharch ar gyfer plant tair a phedair oed yn y Cyfnod Sylfaen.

Bydd ein dull gweithredu newydd mewn perthynas ag addysg a gofal plentyndod cynnar yn cael ei adeiladu ar y sylfeini hyn, gyda'r nod craidd y dylai pob plentyn gael profiad dysgu a gofal ysgogol o safon uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal, a hynny yn Gymraeg, yn Saesneg, neu'n ddwyieithog. Mae'r math o leoliad y maent yn ei fynychu yn amherthnasol cyhyd â'u bod yn cael eu cefnogi a'u meithrin yn ôl eu hangen.

Er mwyn rhoi datblygiad plant wrth wraidd addysg a gofal plentyndod cynnar, mae angen inni sicrhau bod ein hegwyddorion o ran safon y ddarpariaeth yn glir i bawb sy'n gweithio gyda phlant ac yn sail i’r ddarpariaeth ym mhob lleoliad yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwybod bod dod o hyd i ddarpariaeth gofal plant briodol yn dipyn o her i rai teuluoedd, yn enwedig os ydynt yn byw mewn rhai ardaloedd penodol neu’n gweithio oriau afreolaidd. Mae ar Gymru angen system hygyrch a hyblyg. Bydd y system gymorth newydd yn ymateb i amgylchiadau unigol, gan ganolbwyntio ar y lleoliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflenwi deilliannau o ansawdd i’r plant.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod addysg gynnar yn cael ei chynnig mewn ystod ehangach o leoliadau. Rydym yn buddsoddi mewn atebion arloesol sy’n caniatáu i fwy o rieni a phlant gael gwell mynediad at addysg gynnar a gofal plant sy’n addas i’w hamgylchiadau ac yn bodloni eu hanghenion.

Mae ar Gymru hefyd angen system sy'n hygyrch ac yn hyblyg i rieni, plant a darparwyr. Gall fod yn anodd i rieni ddeall pa ddarpariaeth sydd ar gael a lle y gellir cael gafael ar y ddarpariaeth honno.

Dywed rhieni wrthym eu bod yn gwerthfawrogi dewis o ran y lleoliad y gallant ei ddefnyddio i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Ond mewn rhai ardaloedd, cyfyngir ar rieni o ran ble y gallant gael addysg gynnar a gofal plant. Ein nod yw sicrhau y gall pob darparwr ddewis pa wasanaethau y maent yn eu cynnig, gan roi dewis llawn ac agored i rieni o ran ble i gael y gwasanaethau hynny.

Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y ddarpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, neu anableddau corfforol, lle y gall yr angen am gymorth arbenigol gyfyngu ymhellach ar y gofal sydd ar gael. Rydym am ei gwneud yn haws i rieni a darparwyr gael y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau y gall plant ag anghenion ychwanegol gael addysg a gofal plentyndod cynnar heb anghydraddoldeb.

Rydym hefyd eisiau sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael addysg gynnar yn y Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog, yn unol â'u hanghenion. Yng nghyd-destun *Cymraeg 2050*, mae angen i ni gynyddu nifer y darparwyr Cymraeg a dwyieithog yn y blynyddoedd cynnar, er mwyn sicrhau y gall rhieni gael mynediad i addysg a gofal plentyndod cynnar yn eu dewis iaith.

Nid mater o ostwng yr oedran ysgol gorfodol yw hyn, nac anfon plant i'r ysgol yn syth o'r crud. Ni fyddwn ychwaith yn disgwyl i ddarparwyr gofal plant ymgymryd â rôl athrawon. Byddwn yn canolbwyntio ar gydnabod gwerth, sgiliau a phrofiadau'r ddau, a'u dwyn ynghyd.

Bydd hyn yn newid uchelgeisiol a sylweddol. Nid newid bach mo hwn, ond gweddnewidiad sy’n mynd i ddigwydd yn raddol dros y degawd nesaf.

Yn y tymor byr, byddwn yn datblygu fframwaith ansawdd sy'n rhoi sail gadarn i'r egwyddorion, a fydd yn cefnogi addysg a gofal plentyndod cynnar ac yn nodi'r gofynion ar gyfer ansawdd ar draws y sector. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr fel arweiniad

i'r ddarpariaeth, gan rieni i ddeall y ddarpariaeth, a chan arolygwyr i asesu'r ddarpariaeth. Dyma'r edefyn aur a fydd yn cysylltu'r holl elfennau yn y system â'i gilydd.

Wrth i ni fynd ati i roi'r dull gweithredu ar waith, byddwn yn ychwanegu at ein llwyddiant a'n cryfderau ac yn sicrhau bod yr holl leoliadau sy'n rhoi gofal i blant o dan bump oed yn gweithio i'r un egwyddorion sylfaenol, gyda'r un ffocws ar ddatblygiad y plentyn, a'r un uchelgais - sef darparu gwasanaeth o safon uchel.

- P'nawn da a chroeso ichi i gyd.

- Diolch ichi am ddod yma heddiw, ac am ymuno â ni ar ein taith i greu un dull gweithredu ar gyfer addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Bydd yn ddull gweithredu o safon, sy'n rhoi'r plant wrth galon ein gwaith, ledled Cymru.

- Dros y bum mlynedd ddiwethaf, ry'n ni wedi bod yn gweithio'n galed i weddnewid ein system addysg – o'r foment y mae plentyn yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, i'r seremoni raddio o'r brifysgol.

- Ar hyn o bryd ry'n ni'n ymgynghori ar ein diwygiadau uchelgeisiol i'r cwricwlwm ac yn rhoi system newydd ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Hefyd, rydym dros hanner ffordd drwy'r rhaglen adeiladu ysgolion a cholegau fwyaf yn y Deyrnas Unedig ers y chwedegau – i wneud yn siŵr bod plant yn dysgu yn yr amgylcheddau gorau posib.

- Bydd llawer ohonoch sydd yma heddiw yn gyfarwydd iawn â'r Cyfnod Sylfaen.

- Mae'r daith rydym yn dechrau arni heddiw i ddiwygio addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn waith sy'n adeiladu ar lwyddiannau'r Cyfnod Sylfaen a Gofal Plant. Bydd y daith yn dod â'r ddau ynghyd i greu <u>un</u> profiad a fydd yn rhoi'r dechrau gorau posib i blant.

- Mae profiadau ein plentyndod yn chwarae rhan allweddol o ran llunio ein dyfodol - maen nhw'n hollbwysig o ran cyfleoedd plant i fynd ymlaen i fyw bywyd iach, llewyrchus a llawn.

- Ry'n ni'n gwybod eisoes, y gall plant bach o gefndiroedd tlotach fod *hyd at flwyddyn* y tu ôl i'w cyfoedion erbyn tair oed.

- Dyma'r 'bwlch cyrhaeddiad' – ac mae'n tyfu'n fwy fyth erbyn i blant ddechrau yn yr ysgol.  Ar

ddechrau'r flwyddyn gyntaf yn yr ysgol, mae plant y teuluoedd sydd â'r incwm isaf 16 mis, ar gyfartaledd, y tu ôl i blant y teuluoedd â'r incwm uchaf.

- Mae'r bwlch yn tyfu'n raddol dros amser – gall barhau drwy gydol bywyd.

- Ry'n ni am gau'r bwlch hwn – a chael gwared arno'n gyfan gwbl yn y pen draw. Cawn wared ar yr anghydbwysedd i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posib i fywyd.

- Mae gennym eisoes ddarpariaeth gofal plant wych ar draws y blynyddoedd cynnar a chynnig uchel ei barch ar gyfer addysg gynnar i blant tair a phedair oed.

- Dylen ni fod yn falch o'r ddau beth yma. Ond ddylen ni ddim stopio gyda hynny – dylen ni ymdrechu i sicrhau mwy, eto, ar gyfer ein plant.

- Cyn inni ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen, fe edrychon ni ar dystiolaeth a'r arferion gorau o bob cwr o'r byd – Seland Newydd, yr Eidal a gwledydd Llychlyn (Sgandinafia).

- Yr athroniaeth yn y gwledydd hyn yw rhoi pob plentyn yn gyntaf.

- Mae'r egwyddorion sy'n sail i'n darpariaeth addysg gynnar yn ganolog i'n cwricwlwm newydd.

- Ond mae angen inni gofio bod anghenion plant yn amrywio yn y blynyddoedd cynnar.

- Mae angen i blant tair oed chwarae a chwilio - adeiladu perthynas gydag oedolion a darganfod eu hannibyniaeth.

- Mae angen eu meithrin a gofalu amdanyn nhw, er mwyn iddyn nhw dyfu a datblygu i'w potensial llawn.

- Ry’n ni am i Gymru gael system addysg a gofal blynyddoedd cynnar o safon - sy'n meithrin ac yn addysgu plant.

- System sydd â phlant wrth ei chalon, a chymorth i'r rhai sydd ei angen.

- System sy'n helpu ein hiaith a'n diwylliant i ffynnu, ac sy'n cynyddu nifer y plant sy'n manteisio ar wasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog.

- Ry’n ni'n gweld y blynyddoedd cynnar yn llai fel cyfnod o baratoi plant ar gyfer yr ysgol, ac yn fwy am ddatblygiad cyffredinol plant – yn gymdeithasol, yn emosiynol, ac yn wybyddol.

- Bydd y dull ‘un system’ newydd yn seiliedig ar y syniad y dylai pob plentyn gael addysg ddiddorol a gofal o safon ym mhob lleoliad - boed yn Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog.

- Mae'r math o leoliad yn amherthnasol, cyhyd â'u bod yn cael eu meithrin a'u cefnogi.

- Mae tair prif elfen i hyn. Tri maes ffocws sy'n hanfodol i'r newid deinamig ry’n ni am ei weld.

- Safon. Mynediad. Gweithlu.

- I roi datblygiad plant wrth galon yr hyn a wnawn, mae angen inni wneud yn siŵr bod egwyddorion *sicrhau safon* y ddarpariaeth yn glir i bawb sy'n gweithio gyda phlant, a bod hyn yn sail i ddarpariaeth ym mhob lleoliad yng Nghymru, ac yn ein helpu i roi'r gorau i feddwl am y *gwahaniaethau* rhwng y lleoliadau ac i ddatblygu'r hyn sydd ganddynt yn *gyffredin*.

- Mae llawer o'r egwyddorion craidd hyn eisoes i'w gweld yn addysgeg y Cyfnod Sylfaen ac yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

- Mae Estyn wedi bod yn glir am safon y ddarpariaeth gyfredol, gyda naw o bob deg lleoliad nas cynhelir yn cael 'da' neu well am gyflawni'r Cyfnod Sylfaen yn 2017-18.

- Mae dysgu drwy chwarae yn rhan hanfodol o ddatblygiad plant, ac mae plant ar eu gorau'n chwarae - mae'n datblygu eu hyder.

- Rhaid inni barhau i arloesi a chaniatáu i blant fynd ati i ddysgu mewn ffyrdd sy'n naturiol iddyn nhw. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg gynnar ddiddorol ac ysgogol, a gofal o safon, ym mhob lleoliad addysg a gofal.

- Ry'n ni hefyd yn gwybod pa mor bwysig yw sicrhau bod pob cam o daith ddysgu plentyn yn gydgysylltiedig.

- Ry'n ni am i'r system blynyddoedd cynnar blethu gyda'r dysgu yn y Cwricwlwm Newydd gan ddarparu continwwm dysgu gwirioneddol.

- Ry'n ni'n gwybod bod dod o hyd i ofal plant priodol yn gallu bod yn anodd i rai teuluoedd, yn enwedig i bobl sy'n gweithio oriau afreolaidd, neu sy'n byw yng nghefn gwlad. Ry'n ni am greu system sy'n hygyrch, yn hyblyg, ac yn deg i rieni, plant a darparwyr.

- Ry'n ni am i'r system newydd o gymorth ymateb i amgylchiadau unigolion, gyda ffocws ar leoliadau'n sicrhau deilliannau o safon ar gyfer plant.

- Ry'n ni'n ymwybodol y gall ein darpariaeth blynyddoedd cynnar fod yn ddryslyd ac yn gymhleth.  Gall fod yn anodd i rieni wybod pa ddarpariaeth sydd ar gael i'w plant neu ddod o hyd i ddewis sy'n diwallu anghenion y plant ac yn cyd-fynd ag amgylchiadau'r teulu.

- Ry'n ni eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ehangu addysg gynnar i ystod ehangach o

lleoliadau - gan adeiladu ar y gwaith gwych a wneir yn ein hysgolion.

- Ry'n ni am weld datrysiadau arloesol, er mwyn galluogi rhieni a phlant i gael gwell mynediad at addysg gynnar a gofal plant, a hynny ym mhob cwr o Gymru. Ry'n ni'n buddsoddi tua £80m i gefnogi hyn.

- Bydd y buddsoddiad hwn yn arwain at ddatblygu lleoliadau gofal plant newydd ledled Cymru.

- Mae mynediad yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun gofal blynyddoedd cynnar i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau corfforol. Ry'n ni'n gwybod y gall yr angen am gymorth arbenigol gyfyngu ymhellach ar y gofal sydd ar gael, ac yn ei dro gall hyn gyfyngu ar ddatblygiad y plant hynny, y gwyddwn eu bod yn gwneud yn well mewn lleoliadau cymysg.

- Bydd ein diwygiadau addysg a gofal blynyddoedd cynnar yn cyd-fynd â'r system newydd ar gyfer plant

a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn inni allu helpu'r bobl sydd ei angen fwyaf, a hynny cyn gynted â phosib.

- Hefyd, mae angen inni gynyddu nifer y darparwyr Cymraeg a dwyieithog yn sector y blynyddoedd cynnar er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a sicrhau bod dewis gwirioneddol ym maes addysg a gofal yn Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog.

- Ry'n ni'n buddsoddi mwy na £30m mewn gwasanaethau Cymraeg ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd o 150 yn nifer y Cylchoedd Meithrin dros y degawd nesaf.

- Mae'r deuddeg cyntaf wedi'u sefydlu eisoes, ac rydym yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau i barhau â'r rhaglen ehangu hon.

- Yn olaf, fe fuddsoddwn ni yng *ngweithlu*'r blynyddoedd cynnar.  Dw i'n gwybod yn iawn fod y

gweithlu'n gwneud eu gorau glas dros blant, ac yn frwdfrydig am gefnogi a meithrin y plant sydd yn eu gofal.

- Fe gefnogwn ni'r gweithlu drwy'r newidiadau i addysg a gofal y blynyddoedd cynnar dros y blynyddoedd i ddod.

- Nid bwriad hyn yw lleihau'r oedran ysgol gorfodol, neu roi plant yn yr ysgol ar eu geni. Nid y bwriad, chwaith, yw troi darparwyr gofal plant yn athrawon.

- Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod gwerth, sgiliau a phrofiadau gofalwyr ac athrawon, gan eu dwyn ynghyd.

- Mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo yn y sector gofal plant eisoes, fel rhan o'n Cynllun Datblygu'r Gweithlu deng mlynedd o hyd, ac rydym yn cefnogi athrawon a chynorthwywyr dysgu gyda chyfres o becynnau dysgu proffesiynol wrth i'r

cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu a'i gyflwyno.

- Ry'n ni wedi lansio cymwysterau newydd sydd â ffocws ar ddatblygiad plant ac ry’n ni’n gweithio tuag at gofrestr broffesiynol o ymarferwyr gofal plant fel cofnod o'r ddarpariaeth safonol sydd ar gael.

- Ond mae'r diwygiadau'n mynd ymhellach na hyn – ry'n ni am wneud gweithio gyda plant bach yn ddewis gyrfa uchelgeisiol. Hynny yw, ry'n ni am roi llwybrau gyrfa a chynnydd clir i aelodau cyfredol y gweithlu, ac aelodau newydd. Bydd hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu arbenigeddau i gefnogi plant ymhellach.

- Ry'n ni'n bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn ar y cyd â'n cynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg.

- Ry'n ni am sicrhau bod pob ymarferwr ym maes addysg a gofal y blynyddoedd cynnar yn cael pecyn dysgu a chymorth sy'n adlewyrchu eu pwysigrwydd.

- Mae heddiw'n ddechrau taith a fydd yn gweld newidiadau sylweddol ac uchelgeisiol.

- Ni fydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflawni'n gyflym: nid peth tymor byr ac ar raddfa fach yw hyn. Mae'n *weddnewidiad* a fydd yn digwydd dros y degawd i ddod.

- Nid ydyn ni'n dechrau o'r dechrau, fodd bynnag. Mae gennym ni gryfder a safonau yn ein sector blynyddoedd cynnar - y dasg yw datblygu ar hyn wrth fynd ymlaen.

- Mae wedi bod yn bleser bod gyda chi p'nawn 'ma i siarad am y dyfodol cyffrous a'r trywydd ry'n ni'n ei gymryd o ran addysg a gofal y blynyddoedd cynnar.

- Cyn gorffen, hoffwn i gyhoeddi datblygiad Fframwaith Ansawdd a fydd yn nodi'r egwyddorion sicrhau safon ynghyd â'r gofynion ar draws y sector ar gyfer plant hyd at bump oed.

- Gall ymarferwyr ddefnyddio'r Fframwaith i dywys y ddarpariaeth. Gall rhieni ei ddefnyddio i ddod i ddeall y ddarpariaeth. A gall arolygwyr ei ddefnyddio i asesu'r ddarpariaeth.

- Bydd holl elfennau'r system yn dod ynghyd yn y Fframwaith hwn, gan sicrhau ffocws ar ddatblygiad plant. Bydd yn allweddol i integreiddio gofal plant ac addysg gynnar.

- Felly heddiw, rydym yn gwneud ymrwymiad y bydd y llywodraeth hon yn datblygu un system ar gyfer addysg gynnar a gofal yng Nghymru.

- Fe adeiladwn ni ar ein llwyddiant a sicrhau bod yr un egwyddorion craidd yn sail i waith pob lleoliad addysg a gofal blynyddoedd cynnar, a bod ganddynt yr un ffocws ar ddatblygiad y plentyn, a'r un uchelgais - sef sicrhau safon.

- Diolch yn fawr.

Word count 1690

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon